Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## SWYDD-DDISGRIFIAD

**Teitl:** Llysgennad Myfyrwyr

**Cyfeirnod y Swydd:** 00643

**Math o gontract/Oriau/FTE:** Yn ôl yr angen

**Cyfradd cyflog:** Isafswm Cyflog Cenedlaethol* / Cyflog Byw Cenedlaethol*
*Yn amodol ar oed:

| 25 neu'n hŷn | 16 i 24 |
|---|---|
| £8.21 | £7.70 |

**Lleoliad:** Campysau Caerfyrddin, Llambed, Abertawe a Chaerdydd

**Yn adrodd i:** Prif Swyddog Recriwtio Marchnata

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** O ganlyniad i'w natur, dyletswyddau a chyfrifoldebau, gall y rôl uchod fod yn amodol ar wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd "Uwch" (DBS), y bydd y Brifysgol yn talu amdano.

## PRIF BWRPAS Y SWYDD

Mae Llysgenhadon Myfyrwyr yn chwarae rôl bwysig yng ngweithgareddau Marchnata a Recriwtio Y Drindod Dewi Sant. Bydd deiliad(iaid) y swydd yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi ein Diwrnodau Agored a Diwrnodau Blasu, gan ddarparu cymorth i'r staff Recriwtio Marchnata ac ymwelwyr gan sicrhau bod gwesteion yn cael profiad gwych wrth ymweld â'n digwyddiadau. Hefyd bydd deiliad(iaid) y swydd yn hollbwysig wrth ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau allgymorth effaith uchel wrth gefnogi ysgolion a chyrsiau unigol ac efallai y bydd gofyn iddynt ddarparu cymorth gweinyddol i'r tîm Recriwtio Marchnata ar brydiau.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Mynychu diwrnodau agored, ymweliadau campws a digwyddiadau tebyg i fod yn westai a helpu grwpiau o fyfyrwyr, rheini a gwesteion gan gynrychioli Addysg Uwch a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn benodol;
- Cynrychioli eich Cyfadran, campws neu faes pwnc wrth weithio gyda grwpiau o bob oed, ar gyfer grwpiau cyn-16 mewn ysgolion a cholegau a myfyrwyr ôl-16 sy'n gwneud eu penderfyniadau;
- Cefnogi gwaith y bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn weithredol mewn digwyddiadau ar ac oddi ar y campws gan weithio gyda phlant oedran ysgol gynradd ac uwchradd.
- Cefnogi'n weithredol gweithdai, gweithgareddau a sgyrsiau i fyfyrwyr, a hwylusir gan y tîm Recriwtio Marchnata, neu Ysgolion Academaidd, i sicrhau eu bod yn rhyngweithiol a diddorol i ddarparu fyfyrwyr ac ymwelwyr;

- Cynnal teithiau o gwmpas y campws i fyfyrwyr, rhieni ac ymwelwyr sy'n ymweld â'r brifysgol ar Ddiwrnodau Agored, diwrnodau blasu a diwrnodau ymweld;
- Cymryd rhan weithredol mewn pob digwyddiad, gan rannu eich profiadau chi a chynrychioli'r agweddau niferus ar Addysg Uwch mewn ffordd bositif, ddiddorol ac sy'n addas i'r gynulleidfa,
- Sicrhau profiad ymwelydd rhagorol i'r cyhoedd, ymwelwyr allanol, cynrychiolwyr cynadleddau ac unrhyw westeion arbennig eraill y gallech gwrdd â nhw os byddwch yn gweithio mewn digwyddiad neu gynhadledd VIP;
- Cyfeirio ymwelwyr a rhai sy'n mynychu digwyddiad i'r ffynonellau gwybodaeth arbenigol fel Gwasanaethau Myfyrwyr, UCAS, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu Staff Y Drindod Dewi Sant pan fo'n briodol
- Helpu gyda phrosiectau eraill, gwaith gweinyddol ac unrhyw ddyletswyddau eraill sydd eu hangen i gefnogi tîm Marchnata Recriwtio'r Brifysgol.
- Efallai y bydd gofyn i Lysgenhadon Myfyrwyr weithio ar ran y tîm Profiad Myfyrwyr neu i ysgol neu gyfadran benodol, y tu allan i'r gwaith a gynigir gan y tîm Recriwtio Marchnata.
- Ymgymryd â'r holl aseiniadau gwaith yn gyfrifol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Ymgymryd â'r holl gyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch perthnasol.
- Cadw at holl bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol
- Gallu addasu i newid a meddu ar yr hyblygrwydd i gaffael sgiliau a gwybodaeth newydd a pherthnasol drwy gymryd cyfrifoldeb addas am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun.
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd ac ymgymryd â dyletswyddau mewn ffordd foesegol a chyfrifol.
- Gweithredu o fewn y safonau sydd wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Iaith y Brifysgol a'r Safonau Cymraeg arfaethedig (2018 ymlaen).

## MANYLEB Y PERSON

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Addysg a chymwysterau** | a) Addysg i lefel TGAU neu gyfwerth | |
| **Profiad, gwybodaeth a sgiliau** | b) Gwybodaeth waith resymol o'r Gyfadran a champws a pharodrwydd i ddysgu rhagor am ein cyfleusterau a champysau eraill.<br>c) Gwybodaeth waith dda o fecanweithiau cymorth myfyrwyr Y Brifysgol<br>d) Meddu ar sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.<br>e) Sgiliau rheoli amser da a dibynadwyedd<br>f) Gallu i dalu sylw i fanylion | g) Hyderus wrth ddarparu cyflwyniadau a theithiau campws<br>h) Dealltwriaeth gadarn o system Addysg y DU<br>i) Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc (11-19 oed)<br>j) Profiad blaenorol o ysgrifennu creadigol<br>k) Profiad o feddalwedd golygu delweddau a fideos<br>l) Gwybodaeth hyderus o'r offer i gefnogi ceisiadau a derbyniadau i'r brifysgol gan gynnwys UCAS a systemau gwneud cais am lety.<br>m) Profiad o ddarparu cymorth a gwybodaeth i ystod o gynulleidfaoedd<br>n) Dealltwriaeth o faterion amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | o) Gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig |
| **Gofynion eraill** | p) Myfyriwr presennol yn Y Drindod Dewi Sant<br>q) Ymagwedd ragweithiol a gallu i weithio heb goruchwyliaeth<br>r) Agwedd bositif at a brwdfrydedd am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'i chyrsiau<br>s) Ymrwymiad i wasanaeth cwsmeriaid rhagorol<br>t) Dealltwriaeth amlwg o ffiniau a phryd i godi pryderon neu ymholiadau<br>u) Gallu cynrychioli'r Brifysgol yn broffesiynol a phositif o ran ymddangosiad ac ymddygiad<br>v) Dangos parch at ystod amrywiol o bobl a chydnabod pwysigrwydd adeiladu perthnasoedd gwaith cadarn<br>w) Gallu gweithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill.<br>x) Cydnabod yr angen am ac arddangos cyfrinachedd priodol | y) Profiad o weithio mewn rôl brysur sy'n delio â chwsmeriaid |

***Fe fydd yn llesol ichi restru'n benodol sut rydych yn bodloni'r meini prawf. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a chlir, (a gawsoch yn y gweithle, mewn gwaith gwirfoddol neu gymunedol neu mewn unrhyw sefyllfa briodol arall) fel bod y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn gallu gweld yn glir sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â'r meini prawf a nodwyd yn y swydd.***